Joint review

Cydadolygiad

Chwefror 2006

Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys

Crynodeb

SSIW AGCC
SOCIAL SERVICES INSPECTORATE FOR WALES
AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Crynodeb yw hwn o adroddiad llawnach. I weld yr adroddiad llawn ewch i'r wefan: **www.joint-reveiws.gov.uk** neu cysylltwch ag:

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6656

E-bost: **SSIW@wales.gsi.gov.uk**

G/520/05-06
ISBN 0 7504 9732 7

Chwefror
CMK-22-11-013

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2006

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r adroddiad cryno hwn yn dilyn cydadolygiad gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adolygiad yn ceisio ateb dau gwestiwn allweddol:

- Pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol y mae pobl yr ardal yn eu derbyn?
- Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella'r gwasanaethau?

Mae'r adroddiad cryno hwn yn amlinellu casgliadau cyffredinol yr adolygiad, y canfyddiadau allweddol a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Ceir adroddiad llawn a gyhoeddir sy'n amlinellu asesiad manwl y tîm adolygu o'r Cyngor.

Cyflawnwyd y cydadolygiad o'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Sir Powys gan dîm yn gweithio ar ran Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Yr oedd y tîm adolygu yn cynnwys Philip Evans, Shirley Williams, Steve Martin a Bryan Isaac, gydag Alice Jones a Merfyn Jones fel aseswyr lleyg. Maent yn dymuno diolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad drwy rannu eu profiadau a'u canfyddiadau. Gweithiwyd gyda Phowys ar eu safle rhwng mis Ebrill 2005 a mis Gorffennaf 2005.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cyflawni'r canlynol:

- rhoi gwybod i'r cyhoedd pa mor dda yw'r gwasanaethau;
- helpu'r gwasanaethau hyn i wella;
- diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr;
- sicrhau gwell gwerth am arian gyda darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Gofynnwyd i'r Cyngor gynhyrchu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad. Bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni gwaith pellach i werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda darparu'r gweithredu a'r canlyniadau hyn er budd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb hwn ar gael ar wefan y cydadolygiad neu oddi wrth Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.



Graham Williams
Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol



Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 CASGLIADAU CYFFREDINOL

Mae'r bennod hon yn crynhoi barn gyffredinol tîm y Cydadolygiad am y Cyngor. Mae'n tynnu sylw at gryfderau allweddol y Cyngor ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

1.1 Crynodeb

Bernir bod gan Gyngor Sir Powys wasanaethau anghyson a'i fod mewn sefyllfa ansicr i gynnal a gwella gwasanaethau (gweler Arddangosyn 1.1).

Arddangosyn1.1: Sefyllfa Powys ym matrics perfformiad y cydadolygiad



Gyda gwasanaethau i oedolion[1], mae pobl ym Mhowys yn derbyn cymorth sy'n ddiogel ac yn ofalgar ond gallai'n hawdd brofi i fod yn annigonol i ddiwallu eu hanghenion. Yn rhannol, mae'r diffyg hwn wedi codi o fylchau yn amrediad ac argaeledd y gwasanaethau. Hefyd, nid yw'r gwasanaethau yn canolbwyntio ddigon ar wneud yr ymdrech orau i alluogi defnyddwyr a gofalwyr i gadw eu hannibyniaeth a'u rheolaeth.

Mae gwelliannau i wasanaethau oedolion wedi eu gwneud. Mae'r dull o asesu angen a chynllunio gofal ar gyfer unigolion yn dod yn fwy systematig. Mae tystiolaeth hefyd o weithio'n fwy integredig â phartneriaid allweddol yn

1 Defnyddir y term *gwasanaethau i oedolion* i gyfeirio at yr holl wasanaethau i bobl 18 oed a hŷn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau pobl hŷn, iechyd meddwl, anabledd a gwasanaethau i ofalwyr oedolion sy'n agored i niwed. Defnyddir *Gofal Cymunedol* i ddisgrifio'r uned reoli o fewn y Cyngor sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn.

y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhai datblygiadau gwasanaeth diweddar yn dangos bod ymdrechion yn cael eu gwneud i:

- **fynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau;**
- **sicrhau bod gwasanaethau yn fwy ymatebol (drwy gynnig mwy o ddewis a gwell cyfle i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd eu cymunedau);**
- **rheoli'r modd y mae cynlluniau a strategaethau buddsoddi yn helpu i gyfateb anghenion a gwasanaethau.**

Ym mhob un o'r meysydd hyn, megis cychwyn ar siwrne faith y mae'r Cyngor.

Gyda gwasanaethau i blant[2], mae pryderon mwy difrifol a sylfaenol fyth. Mae ystod y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu anghenion asesedig plant a'u teuluoedd yn brin iawn. Mae'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar gymorth, asesu anghenion a chynllunio gofal wedi bod drwy gyfnod hir o argyfwng. Dros y cyfnod hwn, disgynnodd rhai arferion proffesiynol o dan y safonau yn ddifrifol. Nid yw'r Cyngor wedi gallu sicrhau bod gwaith cymhleth yn cael ei wneud yn gyson a phrydlon gan staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol. O ganlyniad, nid yw rhai cryfderau posibl (fel ymateb yn sydyn i geisiadau newydd am gymorth a'r berthynas waith dda gyda grwpiau proffesiynol eraill) wedi arwain yn gyson at ganlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r problemau hyn wedi effeithio'n andwyol ar fywydau plant agored i niwed, a'u teuluoedd. Mae tystiolaeth bod rhywfaint o dir yn cael ei ennill ond mae'r cynnydd yn fregus ac yn ysbeidiol iawn.

Mae gwasanaethau cymdeithasol ym Mhowys wedi cyrraedd cyfnod sy'n greiddiol hanfodol. Mae'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn ddiweddar yn dilyn cyfnod hir lle:

- **nad oedd gan y gwasanaethau cymdeithasol, ar y cyfan, arweiniad gan y canol corfforaethol na'r buddsoddiad angenrheidiol i wella'n sylweddol;**
- **yr oedd y Cyngor yn dibynnu'n rhy drwm ar yr hyn yr oedd yn ei ystyried i fod yn gryfderau traddodiadol, fel ymroddiad a theyrngarwch staff.**

Pan gytunodd y Cyngor wedyn mai ei flaenoriaeth fwyaf oedd ceisio gwella lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ym Mhowys, yr oedd hefyd yn cydnabod bod angen atebion gwell i dywys y modd y darperir gwasanaethau. Yn dilyn hynny, cafwyd:

- **newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol;**
- **mwy o berchnogaeth wleidyddol;**
- **mwy o fuddsoddi;**
- **mwy o bwyslais ar bartneriaethau.**

---

2 Mae'r term *gwasanaethau plant* yn cyfeirio at yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddiwallu angen; bydd hyn yn cynnwys cefnogi teuluoedd, cymorth llety, cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth. Y *Gwasanaeth Plant*, gyda phrif lythrennau, yw uned reoli'r Cyngor sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn, o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Gwasanaethau Cymunedol.

Ynghyd â'r agwedd newydd hon at ofal cymdeithasol, dechreuodd y Cyngor hefyd wella ei ddull cyffredinol o reoli a pherfformio gan roi mwy o bwyslais ar osod blaenoriaethau, sicrhau ansawdd ac atebolrwydd clir.

Nid yw'r newidiadau hyn wedi eu gwreiddio eto ac erys rhwystrau aruthrol i wneud unrhyw welliannau.

- **Mae problemau diri wedi eu hetifeddu o ganlyniad i benderfyniadau gwael yn y gorffennol - er enghraifft, pan newidiodd y Cyngor y trefniadau adrodd ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd heb sicrhau atebolrwydd clir nac arweiniad strategol cryf.**
- **Mae recriwtio a chadw staff yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella, ond erys y sefyllfa gyffredinol yn ansicr.**
- **Mae'r newidiadau yng nghyswllt gwasanaethau oedolion wedi bod yn araf o ran ailwampio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni amcanion agenda gofal cymdeithasol fodern - atal, ailsefydlu ac annibyniaeth.**
- **Nid oes llawer o gynllunio gwasanaeth eto'n digwydd ar sail fframwaith comisiynu clir sy'n cyfateb anghenion, gwasanaethau a buddsoddi mewn ffyrdd sy'n cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.**
- **Nid yw pob un o'r partneriaid allweddol wedi ymrwymo'n llawn i weithredu rhaglen newid gyffredin.**
- **Mae'r Cyngor wedi ei chael yn anodd dod o hyd i ffyrdd o reoli risg sy'n cwrdd â gwahanol anghenion oedolion a phlant, er bod rhywfaint o waith da wedi'i wneud gyda dilyn gweithdrefnau ffurfiol i amddiffyn pobl agored i niwed.**

Dros gyfnod y Cydadolygiad, fodd bynnag, yr oedd cyfleoedd newydd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu creu. Cytunodd Bwrdd y Cyngor i flaenoriaethu gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer derbyn cyllid newydd sylweddol. Dechreuodd adeiladu rhai o'r blociau creu ar gyfer adfer parhaus megis trefniadau gwleidyddol a rheoli mwy effeithiol, cynlluniau recriwtio a chadw, mwy o gymorth busnes, cymorth ychwanegol ac arbenigedd o du allan i'r Cyngor. Yr oedd rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb yn egnïol i'r newid cyfeiriad hwn.

Bellach, mae'r ffactorau hyn yn amlwg yn gosod sylfaen well ar gyfer gwella ar hyn o bryd. Er hynny, mae'n bwysig bod yn realistig ynghylch:

- **maint yr her;**
- **diffyg unrhyw hanes sefydlog ym Mhowys o ddarparu rhaglen barhaus o ddiwygio'r gwasanaethau cymdeithasol.**

Bydd yn rhaid cyflwyno a chryfhau'r dull newydd hwn mewn sawl maes a thros gyfnod maith i fod yn sicr y bydd pobl y Sir yn derbyn gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion yn gyson.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Ceisiodd yr Adolygiad ateb dau gwestiwn allweddol:

- **Pa mor dda yw'r gwasanaethau? (gweler Ffigur 1.2.1)**
- **Pa mor dda yw sefyllfa'r cyngor o ran cynnal a gwella'r gwasanaethau? (gweler Arddangosyn 1.2.2)**

Arddangosyn 1.2.1: Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

DYFARNIADAU'R TÎM ADOLYGU				
	Gwael	**Anghyson**	**Da ar y cyfan**	**Ardderchog**
Mynediad i wasanaethau		•		
Asesu		•		
Rheoli ac adolygu gofal	•			
Yr amrediad o wasanaethau a ddarperir		•		
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir		•		
Trefniadau i amddiffyn pobl agored i niwed		•		
Llwyddiant yn hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol		•		

Cryfderau	**Meysydd i'w datblygu**
• Gwasanaethau gan ystod o ddarparwyr sy'n cynnig amgylchedd diogel a gofalgar • Rhai datblygiadau gwasanaeth da mewn gwasanaethau oedolion gyda ffocws gwell yn y rhain ar annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol • Datblygu dulliau mwy systematig o asesu angen a chynllunio gofal o fewn gwasanaethau oedolion • Gweithio'n fwy integredig â gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau statudol eraill • Prosesau mwy diogel ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant	• Gwella ansawdd yr arferion gwaith achos o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd • Cynyddu ystod y gwasanaethau i blant a theuluoedd, yn enwedig cefnogi teuluoedd ac opsiynau lleoliad • Datblygu systemau gwell ar gyfer deall anghenion pobl a'u cysylltu i'r gwasanaethau sy'n cyfateb i'r anghenion hynny • Sicrhau mwy o ehangder y ddarpariaeth, hyblygrwydd a dewis o fewn gwasanaethau i oedolion • Gweithio â phartneriaid i gau'r bylchau mewn gwasanaethau allweddol fel darparu gofal seibiant • Cynhyrchu dull integredig mwy cyson o wneud gwaith asesu a chynllunio sy'n berson-ganolog

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Gwella'r trefniadau ar gyfer cyflawni adolygiadau statudol o gynlluniau gofal plant	• Cynnwys pobl mewn sicrhau ansawdd ac wrth ddylunio gwasanaethau • Cynyddu cyflymdra'r newid, yn enwedig mewn rhai meysydd fel gwasanaethau iechyd meddwl • Sicrhau gweithio mewn partneriaeth well rhwng teuluoedd, staff gwaith maes a darparwyr gwasanaeth yng nghyswllt gwasanaethau plant • Gwella profiadau pobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. • Rheoli'r risgiau i bobl yn fwy gwahaniaethol (gwella effeithiolrwydd rhagofalon mewn gwasanaethau plant; taro cydbwysedd gwell rhwng amddiffyn ac annog annibyniaeth mewn gwasanaethau i oedolion)

Arddangosyn 1.2.2: Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella'r gwasanaethau?

DYFARNIADAU'R TÎM ADOLYGU				
	Sefyllfa wael	**Sefyllfa ansicr**	**Sefyllfa dda, ar y cyfan**	**Sefyllfa gadarn**
Y gweithlu				
Rheoli perfformiad				
Cynllunio a phartneriaethau				
Comisiynu a chontractio				
Adnoddau				
Arweinyddiaeth a diwylliant				
Cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol		•		

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Diwylliant sefydlog o ymroddiad a theyrngarwch staff, wedi'i atgyfnerthu gan hyfforddiant • Perthynas dda ag asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaeth • Mwy o ymrwymiad gwleidyddol i wasanaethau cymdeithasol • Gwell arweinyddiaeth	• Cynyddu ymgysylltu â, a ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn enwedig o ran craffu a chynllunio gwasanaethau • Darparu arweinyddiaeth wleidyddol, atebolrwydd a chraffu sy'n gyson effeithiol (gyda chyllidebau yn cael eu nodi ar sail blaenoriaeth newydd y Cyngor i lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles)

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Mwy o bwyslais ar sicrhau ansawdd a gwybodaeth well am berfformiad • Dull pwyllog o weithredu rheolaeth ariannol a systemau gwybodaeth ariannol da • Capasiti cynyddol ar gyfer comisiynu a chontractio	• Datblygu a darparu strategaeth gydlynol ar gyfer gwella gwasanaethau plant • Cynhyrchu strategaeth sector cyhoeddus a chorfforaethol gyfan ar gyfer delio â'r her o ddarparu gwasanaeth i boblogaeth wasgaredig • Creu partneriaethau, cynlluniau a phrosiectau i ddarparu canlyniadau da • Datblygu dull mwy effeithiol o helpu staff i berfformio'n dda (delio gyda materion lleoliad, rolau, cyfathrebu a chynlluniau gweithredol) • Defnyddio'r fframwaith comisiynu i annog dull mwy disgybledig ar gyfer lleoli gwasanaethau a chanolbwyntio adnoddau • Cynyddu'r capasiti ar gyfer rheoli newid a delio ag agenda sy'n llawn o her

1.3 Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Yn ystod ail gyfnod y Cydadolygiad, dewiswyd pedair thema i'w craffu yn fwy manwl oherwydd teimlwyd eu bod yn cynrychioli blociau adeiladu allweddol o fewn yr agenda heriol i wella sy'n wynebu Powys. Defnyddiwyd y themâu hyn gan y tîm Adolygu yn sail ar gyfer darparu blaenoriaethau gweithredu'r Cyngor.

1. Gweithio trwy oblygiadau ymrwymiad y Cyngor i roi lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar frig ei agenda.

Bydd hyn yn golygu datblygu arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaeth well, i sicrhau ansawdd a pherfformiad cyson y gwasanaethau.

Dylai'r Cyngor:

- **bennu cyllidebau ar sail ei flaenoriaethau penodol, sicrhau digon o adnoddau i gyflawni ei ymrwymiadau gwasanaethau cymdeithasol ym mhob maes a chanolbwyntio'r adnoddau hyn ar feysydd allweddol;**
- **adolygu ei drefniadau gweithredol a chraffu ar gyfer y swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol unedig, sicrhau bod y rhain yn darparu cyfeiriad polisi cyson a sefydlu cysylltiadau clir rhwng amcanion strategol, blaenoriaethau gwella a ffactorau llwyddiant allweddol.**

Dylai rheolwyr sy'n gyfrifol am swyddogaethau corfforaethol:

- **helpu'r Gyfarwyddiaeth Plant a Gwasanaethau Cymunedol newydd i ddelio â meysydd lle mae'r Cyngor yn profi trafferthion trosiant staff,**

gyda ffocws ar swyddi lle mae materion recriwtio a chadw staff wedi achosi'r problemau mwyaf.

Dylai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol:

- **gyflwyno adroddiadau i Gynghorwyr sy'n eu helpu i weithredu cynlluniau, craffu a gwneud penderfyniadau da;**
- **nodi'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau rheolaeth a chymorth busnes gwell, o ystyried nifer y gwelliannau y mae'r Cyngor eisiau eu gwneud a pha mor gyflym y mae angen eu gwneud;**
- **gwella rheolaeth prosiectau unigol a chynyddu'r defnydd a wneir o gynlluniau busnes.**

2. Fel mater o frys, dyfeisio a gweithredu strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau i blant a theuluoedd.

Bydd hyn yn cynnwys rheoli risgiau yn well, datblygiadau gwasanaeth sylweddol a rhaglen i sicrhau safonau arfer uchel gan staff sydd â chyfrifoldebau rheoli achosion.

Dylai'r Cyngor:

- **sicrhau, drwy weithio ag eraill, ei fod yn cynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i blant a theuluoedd, yn enwedig o ran cefnogi teuluoedd ac opsiynau lleoliad i blant sy'n derbyn gofal;**
- **gofyn bod swyddogion yn cynllunio i sicrhau bod gwaith achos yn cael ei wneud gan staff sydd â'r sgiliau a chymwysterau priodol.**

Dylai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol:

- **sicrhau bod Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, yn enwedig o ran rhagofalon i blant sy'n byw oddi cartref;**
- **gweithredu rhaglen i wella safonau arferion gwaith achos a chyflwyno systemau effeithiol i sicrhau gwaith achos o ansawdd da (gyda llinell sylfaen i fesur gwelliannau yn ei herbyn, targedau clir ac adrodd rheolaidd);**
- **gwella profiadau pobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.**

Dylai ymarferwyr:

- **sicrhau bod eu gwaith yn cydymffurfio â gofynion statudol;**
- **cynyddu gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a darparwyr gwasanaeth.**

3. Darparu gwasanaethau i oedolion a'u gofalwyr sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i fyw'n annibynnol.

Bydd hyn yn cynnwys ymestyn ystod a hyblygrwydd gwasanaethau a chael dull o reoli risg sy'n cael ei arwain fwy gan ddefnyddwyr ynghyd â mwy o ffocws ar alluogi.

Dylai'r Cyngor:

- **sicrhau bod partneriaethau a fframweithiau cynllunio yn gallu darparu canlyniadau a gwelliannau mwy cadarn yn gynt;**
- **gweithio yn fwy effeithiol â phartneriaid i lenwi unrhyw fylchau allweddol mewn gwasanaeth ac ailwampio gwasanaethau i gwrdd yn well ag anghenion.**

Dylai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol:

- **wella systemau i ddeall anghenion pobl ac ar gyfer cyfuno ymatebion i wasanaethau;**
- **ceisio cynyddu buddsoddi a chyd-gomisiynu, yn enwedig gyda'r Bwrdd lechyd Lleol, ar gyfer gwasanaethau integredig fel iechyd meddwl ac anableddau dysgu;**
- **defnyddio adolygiadau cyfnodol i atgyfnerthu gwelliannau i wella ansawdd gwasanaethau (drwy ddelio â phroblemau lleoli, ehangder y ddarpariaeth, dibynadwyedd, hyblygrwydd a dewis).**

4. Delio'n gyson â materion ynghylch llunio patrwm a darpariaeth gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n ateb yr her a gyflwynir gan boblogaeth a gweithlu gwasgaredig.

Bydd hyn yn golygu galluogi defnyddwyr a gofalwyr i chwarae mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau, deall gwahanol feysydd yn well o ran y cyfleoedd a'r sialensiau neilltuol yn lleol a chaniatáu mwy o awtonomi fel bo'n briodol i'r staff wrth ymateb i'r anghenion hyn (lle gellir profi canlyniadau gwell).

Dylai'r Cyngor:

- **gynyddu'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau, dylunio gwasanaethau, sicrhau ansawdd a sut y bydd y gyfarwyddiaeth newydd yn gweithio gyda nhw i ddarparu gwasanaethau sydd o fudd iddynt;**
- **annog ymateb sector cyhoeddus cyfan a chorfforaethol i'r problemau a gyflwynir gan boblogaeth wasgaredig, fel mynediad at wasanaethau.**

Dylai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol:

- **ddatblygu strwythur a dull sefydliadol sy'n annog awtonomi priodol ar bob lefel ac sy'n helpu staff i wneud yn dda (drwy wella cynllunio busnes, gwneud defnydd mwy o reoli perfformiad, cyfathrebu gwell a lleoli staff yn briodol);**

- **defnyddio'r fframwaith comisiynu i annog dull mwy disgybledig o leoli gwasanaethau/canolbwyntio adnoddau tra'n caniatáu hefyd ar gyfer comisiynu yn lleol;**

- **sicrhau bod y gwaith iawn yn cael ei ddyrannu i'r bobl iawn.**

Achos Enghreifftiol

Canlyniadau anghysondeb: anghenion tebyg, gwahanol ganlyniadau

Ymhlith yr wythdeg achos a gafodd eu hadolygu gan y tîm, yr oedd dau yn enghreifftiau arbennig o glir a gwrthgyferbyniol o sut y gellir effeithio'n ddwfn iawn ar ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaeth gydag anableddau a'u gofalwyr, drwy amrywiaeth yn argaeledd y canlynol:

- gwasanaethau person-ganolog;

- ymyriadau gwaith cymdeithasol da;

- cydweithio partneriaeth aml-asiantaeth.

Gydag anableddau difrifol ers ei eni, mae **Alun** bellach yng nghanol ei ugeiniau. Nid yw'n gallu symud ar ei ben ei hun, nid oes ganddo leferydd a fawr ddim sgiliau cyfathrebu di-eiriau. Mae'n byw adref gyda'i rieni ac yn mynychu gwasanaeth dydd i oedolion gydag anableddau dysgu. Mae'n derbyn cyfnodau byr o seibiant mewn uned breswyl; cafwyd rhai trafferthion gyda darparu'r gwasanaeth hwn, yn bennaf oherwydd prinder dewis. Mae gweithiwr cymdeithasol cymwysedig yn gyfrifol am asesu a chynllunio achos Alun. Darperir cefnogaeth dda gan y rheolwr. Mae Alun wedi derbyn asesiad manwl gan therapydd galwedigaethol. Dyfeisiwyd rhaglen gan staff y ganolfan ddydd sy'n ei alluogi i brofi cyffro synhwyraidd a chymryd rhan mewn cynifer o weithgareddau â phosibl, o fewn a'r tu allan i'r ganolfan. Cafwyd problemau gyda chytuno â staff iechyd ynghylch sut i reoli'r risgiau o'i symud a'i gynorthwyo yn ystod sesiynau hydrotherapi. Mae gwaith penderfynol ar ran staff y ganolfan ddydd a chan y gweithiwr cymdeithasol wedi helpu i oresgyn y problemau hyn.

Nid yw'r cydweithio partneriaeth aml-asiantaeth bob amser wedi bod yn hawdd ond bu ymrwymiad i ganolbwyntio ar anghenion Alun. Yr oeddent unwaith yn gyndyn o gymryd rhan ond, bellach, mae ei rieni yn barod i siarad â'r gweithiwr cymdeithasol ynghylch cynllunio ar gyfer ei lety a'i ofal yn y dyfodol.

Mae **Bethan** ynghanol ei harddegau, gydag ystod debyg o anableddau, ac yn mynychu ysgol arbennig leol. Mae'n byw gyda'i rhieni. Gwnaed rhywfaint o waith defnyddiol gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc i helpu ei brodyr a'i chwiorydd iau. Yr oedd y teulu wedi bod am gyfnod heb weithiwr achos penodol.

Ar hyn o bryd, mae Bethan yn derbyn ambell i seibiant byr a rhywfaint o seibiant mewn hosbis, er nad yw ei rhieni na'r staff proffesiynol yn gweld hyn fel sefyllfa ddelfrydol. Nid yw wedi gallu manteisio ar unrhyw seibiant teuluol ers tro am nad oes cytundeb â chydweithwyr iechyd ynghylch rhai materion (sut y dylid rheoli'r risgiau a nodwyd yn ei hasesiad codi a symud; sut y dylid talu am gyfarpar). Mae cydweithio aml-asiantaeth yn parhau i fod yn broblem, yn rhannol oherwydd y gwahaniaeth tybiedig yn statws yr ymarferwyr.
Er yn gallu ac yn awyddus i ddod o hyd i'r atebion iawn, nid oes gan ei gweithiwr presennol gymhwyster mewn gwaith cymdeithasol. Am gyfnod maith, yr oedd hyn yn wir am yr holl staff yn y tîm Plant gydag Anableddau, ac nid oedd rheolwr rheng flaen ychwaith. Mae'n eithaf tebygol mai dim ond lleoliad preswyl fydd yn cael ei weld i fod yn cynnig ateb i anghenion Bethan, a hwnnw mae'n debyg gryn bellter o'i chartref.